**EITEM 7 – CWESTIYNAU**

**(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried bod Ymchwil Tai Newydd a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn 2021 wedi profi bod asesiadau ieithyddol ar geisiadau cynllunio yn anwireddau wrth amlygu fod canran uchel o dai wedi mynd yn aelwyddydd di-Gymraeg mewn ardal sy'n gadarnleoedd traddodiadol i'r iaith, 68% ym Mhen Llŷn a 41% ym Mhenllyn, onid yw'n amser bellach i ail wneud y drefn wallus sydd gennym ar gyfer asesiadau ieithyddol fel na fyddai'r asesydd ieithyddol yn gweithredu ar ran ac er budd datblygwr ond yn hytrach yn cael ei gyfarwyddo gan y Cyngor a bod y datblygwr yn talu comisiwn tuag at y gwasanaeth?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

**Y gwaith ymchwil tai newydd**

Er mwyn ateb y cwestiwn credir ei fod yn bwysig yn gyntaf i egluro cefndir a phwrpas y gwaith ymchwil tai newydd, yn ogystal a phrif gasgliadau'r gwaith.

Y cefndir i'r gwaith ymchwil oedd y diffyg gwybodaeth ddibynadwy oedd ar gael am pa grwpiau o bobl sy'n tueddu i symud i dai newydd yng Ngwynedd, o lle mae'r bobl yma yn symud, a pam eu bod yn dewis symud i dŷ newydd. Roedd yr ychydig wybodaeth oedd ar gael am hyn yn tueddu i fod yn dameidiog ac anecdotaidd iawn. Yn ogystal, gall tystiolaeth o'r fath fod yn ddefnyddiol wrth baratoi dogfennau statudol y Cyngor fel y Cynllun Datblygu Lleol a'r Asesiad Marchnad Tai Lleol.

Felly, pwrpas y gwaith ymchwil yma oedd llenwi rhywfaint ar y "bwlch gwybodaeth" drwy geisio holi preswylwyr tai newydd oedd wedi eu codi ar y pryd yng Ngwynedd. Aeth yr ymchwil yma gam ymhellach hefyd, drwy geisio dilyn y "gadwyn" tai ymlaen i'r tŷ ddaeth yn wag wrth i bobl symud i'r tŷ newydd, wedyn i'r tŷ ddaeth yn wag wrth i bobl symud i hwnnw, ac yn y blaen. Nodwedd allweddol arall yr ymchwil yma oedd siarad efo'r preswylwyr i gael eu "stori" nhw, eu rhesymau nhw dros symud yno, ac ati, mor llawn â phosib, yn hytrach na dibynnu ar anfon holiadur 'ticio bocs' amhersonol.


Prif gasgliadau'r gwaith ymchwil oedd:

- Bod dros 70% o breswylwyr tai newydd wedi symud yno o dŷ arall yng Ngwynedd
- Bod proffil oedran pobl sy'n symud i dai newydd yn eithaf 'ifanc' gyda dros 70% o drigolion tai newydd dan 45 oed
- Bod 69% o breswylwyr tai newydd yn gallu siarad Cymraeg sydd yn debyg iawn i'r canran o siaradwyr Cymraeg ar draws Gwynedd.
- Roedd yn fwy anodd dod i gasgliad wrth fynd nôl yn y gadwyn tai, i weld pwy oedd yn symud i dai ddaeth yn wag wrth i bobl symud i dŷ newydd, oherwydd bod y nifer o ymatebion yn llai. Ond roedd yr ymchwil yn awgrymu bod y symudiadau yma yn "lleol" hefyd gan y mwyaf (gyda 70% o Wynedd a 60% o'r un ardal o Wynedd)

Mae'r cwestiwn a ofynnir yn tynnu sylw at ardaloedd penodol oedd yn rhan o'r gwaith ymchwil sef Pen Llŷn a Penllyn. Ar sail y gymhariaeth efo siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn gyffredinol roedd ardal Pen Llŷn yn dangos canran siaradwyr Cymraeg tai newydd sydd

fymryn yn is. Penllyn oedd yr unig ardal  gyda canran oedd gyda gwahaniaeth mawr, ond rhaid cofio fod hyn ar sail sampl bychan iawn sef 8 ymateb  yn unig, allan o ddim ond 23 tŷ newydd gafodd eu cwblhau yn yr ardal yn y cyfnod.

Hefyd, rhaid pwysleisio fod 7 ardal allan o'r 10 ardal oedd destun y gwaith ymchwil yn dangos canrannau uwch, gyda rhai yn sylweddol uwch fel y dangosir yn y graff isod.




Er hyn, mae'n bwysig peidio gorddibynnu ar ganlyniadau'r ymchwil yma gan gymryd ei fod yn dweud y cyfan wrthym. Cynhaliwyd yr ymchwil yma ar bwynt penodol mewn amser, ac mae'n anodd cymryd yn ganiataol y byddai yr un patrymau yn union yn cael eu hailadrodd ar gyfer unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol ble gallai niferoedd / mathau / union leoliadau'r tai newydd, a chyflwr y farchnad dai yn lleol / yn gyffredinol, fod yn wahanol.

**Asesiadau ieithyddol a datblygiadau tai**

Rhaid pwysleisio nad pwrpas y gwaith ymchwil tai newydd oedd ystyried pa mor effeithiol a'i peidio, oedd unrhyw asesiad o effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o'r broses o ddelio gyda cheisiadau cynllunio ar gyfer y datblygiadau tai newydd.

Nodir hefyd  fod yr ymchwil yn cynnwys pob tŷ newydd gwblhawyd yng Ngwynedd rhwng 2015-2017, gan ychwanegu tai gwblhawyd rhwng 2012-2014 mewn rhai ardaloedd o Wynedd, er mwyn cynyddu maint y sampl.   Felly, o safbwynt ardal awdurdod cynllunio Gwynedd, roedd yr holl geisiadau cynllunio am dai newydd oedd yn rhan o'r gwaith ymchwil wedi eu penderfynu o dan yr hen fframwaith bolisi cynllunio lleol oedd yn weithredol ar y pryd, sef y Cynllun Datblygu Unedol (Gwynedd).  Er hyn, mae'r data a ddangosir yn y graff uchod yn dangos fod y canran o siaradwyr Cymraeg oedd yn symud i dai newydd a ganiatawyd yn y cyfnod yma,  yn fwy na'r canran o siaradwyr Cymraeg yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd oedd destun y gwaith ymchwil.

Mae'r Cynllun Datblygu Unedol wedi ei ddisodli ers 2017 pan fabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Mon). Ymhellach i hyn mae Canllaw Cynllunio Atodol – (Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy) wedi ei fabwysiadu sydd yn rhoi cig ar asgwrn y polisi cynllunio. Felly, mae'r hen drefn oedd mewn lle ar gyfer rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg gyda'r ceisiadau cynllunio oedd yn rhan o'r gwaith ymchwil yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd, wedi ei ddisodli ac mae trefniadau newydd yn weithredol.

Mae'r Polisi o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd a'r arweiniad a roddir yn y Canllaw Cynllunio Atodol, yn mynd yn llawer pellach na'r hen drefn a hefyd y gofynion o fewn y Nodyn Cyngor Technegol 20, Llywodraeth Cymru. Rhaid nodi hefyd fod sawl enghraifft o geisiadau cynllunio sydd wedi eu gwrthod am resymau yn ymwneud a'r iaith Gymraeg.

Y polisi presennol gyda'r canllaw cynllunio atodol fydd yn weithredol nes fod y Cynllun Datblygu Lleol newydd wedi ei fabwysiadu. Mae'r broses o baratoi'r Cynllun newydd wedi cychwyn, a bydd hynny'n gyfle i ail-edrych ar y polisi ac ar sut mae rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth ddelio gyda ceisiadau cynllunio.

O ran pwy ddylai gynnal y gwaith o wneud asesiad ieithyddol gyda ceisiadau cynllunio, rhaid pwysleisio beth yw rôl y Cyngor fel awdurdod cynllunio lleol gyda ceisiadau cynllunio. Mae rôl y Cyngor yn ymwneud yn benodol ac asesu ceisiadau cynllunio ac yna eu penderfynu, neu wneud argymhelliad arnynt, yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ac unrhyw ystyriaethau cynllunio eraill (e.e. Polisi Cynllunio Cymru ac ati).

Nid rôl y Cyngor yw paratoi asesiadau ar ran yr ymgeisydd bo hynny'n asesiad iaith, asesiad trafnidiaeth, asesiad ecolegol nac unrhyw asesiad neu adroddiad arall sydd angen ei gyflwyno fel rhan o'r cais. Pwysleisir fod y Gwasanaeth Cynllunio'n sicrhau fod yr holl wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno gan ymgeiswyr yn cael ei asesu gan ymgynghorai tu fewn a thu allan i'r Cyngor.

Gydag asesiadau / datganiadau iaith a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio, mae trefniadau mewn lle i ymgynghori gydag ymgynghorwyr iaith yng Ngwasanaeth Democrataidd a Chefnogaeth Corfforaethol y Cyngor. Rhoddir sylwadau ganddynt ar y dystiolaeth sy'n cael ei gyflwyno yn yr asesiad iaith, gyda'u sylwadau wedyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio.

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd John Brynmor Hughes**

Hoffwn gael gwybod paham mae'n cymryd gymaint o amser i gael tenantiaid i mewn i gartrefi cymdeithasol yr ardal. Yr esiamplau sydd gennyf ydi bod eiddo ar Ffordd yr Ala, Pwllheli wedi ei droi yn ddau flat ac maent yn wag ers amser maith, yn ogystal â dau dŷ ar Ffordd Abererch. Pe byddai'r eiddo yma yn y sector preifat byddai treth yn dod i'r Cyngor ac o bosib premiwm treth hefyd.

**Ateb – Aelod Cabinet Tai, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Pwrpas y cynllun Prynu i Osod yw cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy sydd ar gael i'w rhentu er mwyn galluogi i bobl leol fyw yn eu cymuned. Bydd y pryniannau sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn golygu y byddwn wedi prynu 23 o dai erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, sy'n cyd-fynd â'r proffil a gyflwynwyd ar ddechrau'r cynllun hwn.

Mae hyn wedi'i gyflawni er gwaethaf marchnad dai heriol, ac wrth i'r sefyllfa sefydlogi, rydym yn hyderus y byddwn yn cyrraedd ein targed o brynu 100 o dai erbyn diwedd oes y Cynllun Gweithredu Tai.

Fel unrhyw broses o brynu eiddo, mae camau cyfreithiol penodol angen eu cwblhau, sy'n cymryd oddeutu 4 mis ar gyfartaledd. Yn dilyn cwblhau'r pryniant, mae rhaid mynd trwy'r broses dendro briodol sydd yn ofynnol i'r Cyngor er mwyn sicrhau gwerth am arian a gwaith o'r safon uchaf er lles y preswylwyr fydd yn byw yno.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gall materion godi sy'n golygu bod tai yn aros yn wag am gyfnod hirach na'r disgwyl, er enghraifft cymhlethdodau gyda chyflenwadau trydan a nwy neu faterion strwythurol yn dod i'r amlwg wedi i'r pryniant gwblhau.

Bydd y gwaith tendro ar gyfer pob eiddo sydd eisoes wedi'i brynu wedi'i wobrwyo erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r gwaith ar nifer o dai wedi'i gwblhau i alluogi i bobl symud i mewn.

Gyda mwy o eiddo ddod i'n perchnogaeth dros y flwyddyn nesaf, rydym wedi dynodi adnodd penodol ychwanegol fydd yn galluogi i ni symud hyd yn oed yn gynt.

Parthed y sylw ynghylch Treth Cyngor, gallwn gadarnhau ein bod fel Cyngor yn ddarostyngedig i dalu trethi fel unrhyw drigolyn Gwynedd felly nid oes colled incwm i'r Cyngor.

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams**

A ddylai Cyngor Gwynedd fod yn gofyn i'r Prif Weinidog, Mark Drakeford am ymddiheuriad am beidio â bwrw ymlaen â Chanolfan Hyfforddi Feddygol ym Mangor yn dilyn Rhybudd o Gynnig gan y Cyngor hwn dros 10 mlynedd yn ôl, pan oedd gan y prosiect gefnogaeth y Gweinidog Iechyd ar y pryd, Edwina Hart AC.

Pe bai Mark Drakeford heb stopio'r prosiect, ni fyddai Gwynedd yn y sefyllfa y mae ynddi heddiw o fod yn brin o ddoctoriaid a nyrsys, sy'n cael effaith negyddol ar drigolion Gwynedd.

**Ateb – Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, Y Cynghorydd Dilwyn Morgan**

Diolch i'r Cynghorydd Eryl Jones-Williams am ei gwestiwn parthed rhoi gwahoddiad i'r Prif Weinidog, Mark Drakeford, i ymddiheuro am yr oedi cyn rhoi cefnogaeth i sefydlu'r Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol Bangor. Cefnogwyd ei gynnig ym mis Medi 2013 oedd yn galw am sefydlu'r Ysgol Feddygol a derbyniwyd ymateb gan y Llywodraeth ym mis Hydref 2013.

Erbyn hyn, mae'n braf nodi fod yr Ysgol Feddygol yn cael ei hagor ym Mangor ac rwy'n siŵr y byddai holl Gynghorwyr Gwynedd am ddymuno'n dda iddi ac i'r myfyrwyr a'r darpar weithlu meddygol i gyd a fydd yn dechrau ar eu haddysg ym mis Medi'r flwyddyn nesaf. Yn wir, diolch yn benodol i'r Cynghorydd Jones-Williams, ymhlith eraill, am alw am sefydlu'r ysgol ddeng mlynedd yn ôl ac am godi'r mater heddiw, gan roi'r cyfle i mi godi ymwybyddiaeth o'r ysgol a'r datblygiad.

Mae gen i gydymdeimlad gyda'r teimlad o rwystredigaeth a deimlir yn y cwestiwn, na chefnogwyd y datblygiad ddeng mlynedd yn ôl. Fel y dywed dihareb o Tsiena, "yr amser gorau i blannu coeden oedd ugain mlynedd yn ôl, a'r ail amser gorau yw nawr". Felly, er yn derbyn y rwystredigaeth, rydw i'n falch fod y datblygiad yn mynd rhagddo erbyn hyn.

Wrth gwrs, nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am y maes meddygol a mater i'r gwasanaeth iechyd, y Llywodraeth a'r Brifysgol yw'r datblygiad, er ei fod yn cael cryn effaith ar Wynedd. Felly, ni welaf fod budd i'w gael i bobl Gwynedd o alw ar i'r Prif Weinidog ymddiheuro am ddiffyg gweithredu ddeng mlynedd yn ôl. Ond rydw i yn gobeithio y daw budd i bobl Gwynedd o'r datblygiad i'r blynyddoedd sydd i ddod.

I ail-adrodd felly, pob dymuniad da i'r Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol Bangor, a phob hwyl i'r myfyrwyr ar eu hastudiaethau.

**(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Huw Rowlands**

Pa effaith mae'r cyfyngiadau ar allyriadau ffosfforws yn nalgylchoedd afonydd yng Ngwynedd yn ei gael ar ddatblygiadau newydd, a pha drafodaethau sydd wedi bod gan Gyngor Gwynedd efo'r asiantaethau priodol er mwyn cael datrysiad?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Mae naw afon yng Nghymru sydd wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan gyfraith y DU o'r enw Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd). Yr afonydd yma yw'r Cleddau, Eden, Gwyrfai, Teifi, Tywi, Glaslyn, Dyfrdwy a'r Wysg, gyda'r afonydd yma'n yn cynnal ecosystemau rhai o fywyd gwyllt prinnaf a phwysicaf Cymru.

Mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd statudol i gyfrannu at gyrraedd targedau ansawdd dwr, a drwy hynny i amddiffyn yr afonydd sy'n ACA, trwy reoleiddio gweithgareddau y maent yn gyfrifol amdanynt.
Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) adroddiad lle cyflwynwyd asesiad o faint o ffosfforws sydd mewn afonydd ACA wedi'i fesur yn erbyn targedau ansawdd dŵr diwygiedig. Dangosodd yr adolygiad fod dros 60% o'r cyrff dŵr a aseswyd mewn dalgylchoedd afonydd mewn ACA, yn methu â bodloni'r targedau ansawdd dŵr diwygiedig ar gyfer ffosfforws. Fodd bynnag, dangosodd canfyddiadau'r adroddiadau nad oedd afonydd Gwyrfai na'r Glaslyn sydd yng Ngwynedd, yn methu cyrraedd y targedau ansawdd dŵr.

Mae'r astudiaethau wedi dangos bod tua 80% o ffosfforws yn deillio o waith trin Dŵr Cymru (DCWW) yn y Gwyrfai gyda 16% o ddefnydd tir gwledig. Yn y Glaslyn mae 62% yn dod o weithfeydd trin Dŵr Cymru (DCWW) a 32% o ddefnydd tir gwledig.

Er nad yw'r afonydd Gwyrfai na'r Glaslyn yn methu'r targedau, gall rhai datblygiadau newydd megis tai neu fentrau amaethyddol er enghraifft, arwain at fwy o ffosfforws yn mynd i mewn i amgylchedd yr afon, o ddŵr gwastraff ychwanegol, neu o reolaeth wael o dail a slyri. O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effaith ffosfforws gall ddeillio o ddatblygiadau arfaethedig ar ansawdd dŵr o fewn dalgylchoedd afon sy'n ACA.

Mewn dalgylchoedd ACA sy'n bodloni targedau ffosfforws, mae'n bosibl y gellir awdurdodi datblygiadau newydd os gellir dangos na fyddant yn arwain at effaith andwyol ar hygrededd y safle (h.y. ni fyddant yn tanseilio gallu'r ACA i gyflawni ei hamcanion cadwraeth).

Mae angen i geisiadau cynllunio ar gyfer cynigion datblygu o fewn dalgylch afon ACA gael Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i bennu eu heffaith ar y safle dynodedig a'i nodweddion. Mae'r Cyngor, fel yr awdurdod cymwys yn cynnal yr asesiad hwn pan mae ei angen. Er hynny, nid yw'r Cyngor wedi bod mewn sefyllfa i allu cadarnhau na fydd effaith o sylwedd ar nodweddion yr afonydd ACA, oherwydd y diffyg tystiolaeth cyfredol i allu bodloni gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd. Ar gyfer datblygiadau sy'n cysylltu â gwaith trin dŵr gwastraff, ni ddylid dibynnu ar ganfyddiadau'r asesiad priodol presennol gan CNC ar gyfer y drwydded, gan ei bod bellach wedi dyddio a ddim yn gyfredol, a heb ei asesu yn erbyn y targedau ffosfforws diwygiedig.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor oddeutu 9 cais cynllunio heb eu penderfynu oherwydd materion ffosffadau, ac mae nifer hefyd wedi cael eu gwrthod (fel arfer gyda rhesymau eraill i wrthod hefyd).  Mae'r ceisiadau sydd wedi'u gohirio ar hyn o bryd yn cynnwys datblygiad o 26 o dai (cymysgedd o dai marchnad agored a thai fforddiadwy) yn Bontnewydd, a datblygiad o 16 tŷ fforddiadwy yn Ninas, Caernarfon.

Mae CNC yn cynnal adolygiad o drwyddedau cwmnïau dŵr presennol yn erbyn y targedau ffosfforws diwygiedig, ac mae targed yn ei le i gwblhau'r gwaith erbyn Gorffennaf 2024. Mae CNC yn rhyddhau'r trwyddedau diwygiedig ar ôl eu cwblhau ond nid oes dyddiadau targed ar gyfer afonydd unigol. Hyd yma, nid oes dim trwyddedau diwygiedig wedi eu cyhoeddi yng Ngwynedd.

Lle mae trwydded gwaith trin dŵr gwastraff wedi'i hadolygu yn erbyn targedau ffosfforws diwygiedig ac, mewn rhai achosion, wedi cael ei hamrywio yn unol â hynny, dylai datblygiadau newydd sy'n cysylltu â'r garthffos gyhoeddus gysylltiedig barhau i fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan yr awdurdod cynllunio. Mae'n bosibl y caiff yr asesiad ei lywio gan adolygiad CNC ar gyfer trwydded benodol. Efallai y bydd angen i gwmpas yr asesiad fod yn ehangach na chwmpas adolygiad technegol y drwydded ac ystyried nodweddion eraill y safle, gwybodaeth newydd neu newidiadau mewn amgylchiadau. Er y dylid ystyried effeithiau ffosfforws cysylltiadau newydd fesul achos, mae'n debygol y gellir dod i gasgliad na fydd unrhyw effaith andwyol yng nghyd-destun effeithiau ansawdd dŵr lle mae'r canlynol yn berthnasol:

- mae'r drwydded amgylcheddol ar gyfer y gwaith trin dŵr gwastraff cysylltiedig wedi'i hadolygu yn erbyn amcanion cadwraeth diwygiedig ar gyfer ansawdd dŵr
- mae'r gallu'n bodoli i gynnwys y dŵr gwastraff ychwanegol yn unol â therfynau'r drwydded ddiwygiedig
- mae gan y rhwydwaith garthffosiaeth a'r weithfa trin dŵr gwastraff gapasiti hydrolig ar gyfer cysylltiadau newydd heb arwain at gynnydd yn effaith amgylcheddol gorlifoedd storm.

Er mwyn sicrhau bydd swyddogion y Cyngor yn barod i ail-asesu ceisiadau unwaith bydd y trwyddedau a adolygwyd wedi'u cyhoeddi, mae swyddogion wedi mynychu hyfforddiant perthnasol sy'n cynnwys hyfforddiant a baratowyd gan Lywodraeth Cymru.

Unwaith y bydd y trwyddedau wedi'u hadolygu ac wedi'u cyhoeddi, gall DCWW a'r gwasanaeth Cynllunio gynnal y drafodaeth ynghylch cysylltiadau i, a chapasiti y gwaith trin dŵr. O ystyried mai dim ond ôl-groniad bach o geisiadau sydd gan Wynedd wedi'u gohirio oherwydd ffosffadau, ni ragwelir problemau gyda chapasiti staffio a gellir cychwyn trafodaethau gyda DCWW cyn gynted ac y bo modd. Mae'r canlyniad o ran y ceisiadau cynllunio sydd heb eu penderfynu, yn dibynnu i raddau helaeth ar gapasiti gweithfeydd trin DCWW a'r posibilrwydd i dderbyn ffosffad ychwanegol. Mewn amgylchiadau lle mae problemau capasiti, gellir defnyddio amodau cynllunio i reoli amseriad y datblygiad i gyd-fynd â chyflawni gwelliannau yn y dyfodol mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff a drefnwyd o dan Gynllun Rheoli Asedau (DCWW).

Mae swyddogion hefyd wedi bod yn mynychu cyfarfodydd perthnasol yn rheolaidd sy'n cynnwys y Byrddau Rheoli Maetholion a'r Is-grŵp Cynllunio Afonydd Ffosffad ACA. Hefyd mae yna gyfarfodydd a fynychir gan Gynghorau Cymru, rhai Cynghorau trawsffiniol, DCWW, CNC, Llywodraeth Cymru, Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru (PEDW) a hefyd rhanddeiliaid anstatudol. Sicrhaodd y grwpiau a'r byrddau fod y mater bellach yn cael ei arwain gan weinidog ar lefel genedlaethol. Mae dwy uwchgynhadledd ffosffad wedi'u cynnal hyd yma gyda gweithrediadau yn deillio o hynny, a thrydedd uwchgynhadledd ar y gweill er mwyn symud y mater ymlaen.

Nodir hefyd y bydd y materion o gwmpas ansawdd dŵr a lefelau ffosfforws yn yr Afonydd Gwyrfai a'r Glaslyn, angen ystyriaeth wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer ardal awdurdod Cynllunio Gwynedd. Ymhellach i hyn deallir fod CNC yn cynnal gwaith tebyg ar gyfer ansawdd dŵr a lefelau ffosfforws yn yr ACA morwrol, a gall hyn gael effaith pellach ar geisiadau cynllunio'n yr ardal yn ogystal a'r broses o baratoi Cynllun newydd.

**(5) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

Mi fydd hi'n flwyddyn newydd gyda hyn. Pa mor ara' deg mae'r Cyngor hwn yn mynd i fod yn llunio polisi iaith newydd ar gyfer ysgolion y sir neu eu dynodi'n ysgolion 3P?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Beca Brown**

Rwyf wedi nodi fy mwriad fel Aelod Cabinet Addysg i ddiweddaru'r Polisi Iaith Addysg mewn sawl cyfarfod o'r Cyngor Llawn, ac mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ddiweddar.

Rwyf hefyd wedi mabwysiadu argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd, sydd yn cynnwys argymhelliad penodol ynglŷn â'r Polisi Iaith, sef: "*Bod yr Awdurdod Addysg yn addasu'r Polisi Iaith enghreifftiol ar gyfer ysgolion gan roi mwy o bwyslais ar y Gymraeg a'i wneud yn gliriach o ran beth a olygir wrth "ddwyieithrwydd."*

Nid wyf yn derbyn y sylw ynglŷn ag arafwch y Cyngor wrth fynd ati i ddiweddaru'r Polisi Iaith. Mae fy ymrwymiad yn gwbl glir, a gallaf nodi y bydd y gwaith o ddiweddaru'r Polisi Iaith Addysg wedi ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn addysgol hon, a bydd cyfle i mi fanylu ymhellach ar hynny wrth i mi adrodd ar gynnydd yn erbyn argymhellion yr ymchwiliad craffu gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Mawrth 2024.